# CYNLLUN STRATEGOL CYMRAEG MEWN ADDYSG

DRAFT

| Enw’r Awdurdod Lleol |
| --- |
| **CONWY** |
| **Cyfnod y Cynllun hwn** |
| **2022-2032** |

**Mae'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg hwn yn cael ei wneud o dan adran 84 o *Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013* ac mae’r cynnwys yn cydymffurfio â *Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019*[1-2]. Rydym wedi rhoi sylw dyledus i'r canllawiau statudol a gyhoeddwyd gan Weinidogion Cymru wrth bennu ein targedau.**

**Llofnod**: Jenny Williams **Dyddiad**: 20.09.2021

Cyfarwyddwr Strategol Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol ac Addysg

(Mae angen i'r Prif Swyddog Addysg yn eich awdurdod lleol lofnodi'r Cynllun hwn)

[1] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019
[2] Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Rhagair

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy weledigaeth i sicrhau bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol rhugl a hyderus yn y Gymraeg a'r Saesneg. Rydym am sicrhau bod pob cyfle i blant a phobl ifanc y sir i fod yn aelodau cyflawn o'r gymdeithas ddwyieithog / amlieithog y maent yn rhan ohoni fel eu bod yn dymuno defnyddio'r iaith o fewn y teulu, yn y cymunedau ac yn y gweithle.

Rydym fel awdurdod yn ymrwymedig i ddyheadau Llywodraeth Cymru i greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Byddwn yn cyfrannu at y weledigaeth hon trwy gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd ag ysbrydoli ac annog balchder plant a phobl ifanc y sir yn y Gymraeg, ei threftadaeth a'i diwylliant.

I gefnogi'r weledigaeth a nodir yng Nghynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg, bydd Cyngor Conwy yn parhau i hyrwyddo gweithrediad y Siarter Iaith ymhob un o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y sir er mwyn dylanwadu ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg.

Bydd pob ysgol gynradd ddwyieithog a chyfrwng Saesneg y sir yn parhau i weithredu gofynion Siarter Iaith (Cymraeg Campus). Bydd hyn yn hyrwyddo ethos Cymreig cadarn ynghyd â gosod fframwaith clir i hyrwyddo a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg gan blant o fewn cyd-destun ysgol gyfan.

Bydd Cyngor Conwy hefyd yn cefnogi'r Cynlluniau Trochi Cynradd ac Uwchradd sy'n galluogi disgyblion sydd wedi dilyn addysg cyfrwng Saesneg i drosglwyddo'n llwyddiannus i addysg cyfrwng Cymraeg.

## Rhagarweiniad

Yn unol â Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion Cymru (2013) mae'n ddyletswydd statudol ar Awdurdodau Lleol i baratoi a chyflwyno Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg i Lywodraeth Cymru. Bydd y cynlluniau hyn yn weithredol am gyfnod o 10 mlynedd o Fedi 2022. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu sut mae Awdurdodau Lleol yn bwriadu cyflawni nodau a thargedau Llywodraeth Cymru a amlinellir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau polisi allweddol ym maes Y Gymraeg mewn Addysg gan Lywodraeth Cymru:

**Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015,**
**Ffyniant i Bawb: Y Strategaeth Genedlaethol, Symud Cymru Ymlaen 2016-2021**
Mae'n ofynnol i gyrff a gwasanaethau cyhoeddus ledled Cymru sicrhau eu bod yn gweithio tuag at gyflawni'r nod o greu 'Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu'.
Un o'r blaenoriaethau yw sicrhau fod pob dysgwr yn gallu defnyddio'r Gymraeg pan fydd yn gadael yr ysgol.

**Cymraeg 2050**
Strategaeth a gweledigaeth hirdymor Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg yw creu miliwn o siaradwyr, ynghyd â chynyddu'r defnydd a wneir o'r Gymraeg. Nodir mai Addysg cyfrwng Cymraeg/dwyieithog yw un o'r prif ddulliau i sicrhau bod plant yn gallu datblygu eu sgiliau Cymraeg yn ogystal â chreu siaradwyr Cymraeg newydd. Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg yn allweddol ar gyfer cefnogi'r weledigaeth o greu miliwn o siaradwyr erbyn 2050 ynghyd ag ymgorffori nodau a gwerthoedd y dogfennau a nodwyd yn flaenorol.

**Cwricwlwm i Gymru 2022**
Yn unol ag amserlen Llywodraeth Cymru bydd y sir yn sicrhau ein bod yn helpu plant a phobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn fentrus a chreadigol yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn iach a hyderus. Bydd yr holl ysgolion yn llunio cwricwlwm sy'n ymgorffori'r uchod trwy'r chwe Maes Dysgu a Phrofiad i greu un continwwm o ddysgu'r Gymraeg.

**Cynllun Hyrwyddo'r Gymraeg Conwy**
Yn unol ag adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, mae'n ddisgwyliad ar y Cyngor i lunio strategaeth hybu 5 mlynedd fydd yn dangos sut yr ydym yn bwriadu hybu'r Gymraeg a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg ar draws y sir. Bydd y cynllun yn cael ei gweithredu law yn llaw â'r strategaeth hon, gan weithio mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, ysgolion ac unigolion.

**Categoreiddio ysgolion yn ôl eu darpariaeth o'r Gymraeg**
Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru rhaid i bob ysgol ac awdurdod lleol yng Nghymru ddatgan ym mha iaith y maent yn bwriadu addysgu. Yng Nghymru, gall hyn fod naill ai drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg, neu gyfuniad o'r ddau.

Adlewyrchir dogfennau polisi Llywodraeth Cymru a Pholisi Iaith Addysg Conwy yn y strategaeth hon. O gyflawni nodau'r strategaeth, hyderwn y bydd datblygiad cadarnhaol nid yn unig i addysg Gymraeg a chyfrwng Cymraeg y sir, ond hefyd i addysg gyflawn disgyblion Sir Conwy.

# Ein gweledigaeth deng mlynedd ar gyfer cynyddu a gwella'r cynllunio darpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg yn ein hardal

**Gweledigaeth a Nod Conwy**

Ein dymuniad yw gweld yr iaith Gymraeg yn ffynnu. Ein dyhead yw atal y dirywiad a chynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg. Byddwn yn parhau i hyrwyddo'r cyfleoedd i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg i bob plentyn sy'n dymuno hynny, yn ogystal â datblygu a chryfhau sgiliau dwyieithog ar draws yr holl sectorau.

Ein targed yw cynyddu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghonwy 14%+ dros y deng mlynedd nesaf er mwyn ymgyrraedd â nod Llywodraeth Cymru o 30% erbyn 2031.

Pennir amrediad cynnydd yn seiliedig ar nifer plant Blwyddyn 1 a addysgir trwy gyfrwng y Gymraeg. Gosodir yr holl awdurdodau yng Nghymru o fewn 4 grŵp yn seiliedig ar wahanol ffactorau. Mae Sir Conwy o fewn Grŵp 2 yn seiliedig ar ddemograffeg ieithyddol yr awdurdod.

| 2019/20 | | Targed 2030/31 | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Rhif | Canran | Rhif isafswm | Canran isafswm | Rhif uchafswm | Canran uchafswm |
| 283 | 25.8% | 395 | 36% | 435 | 40% |

**Demograffeg Sir Conwy**

Mae gan y Sir ddemograffeg amrywiol iawn gyda niferoedd yr oedrannau hŷn yn cynyddu, rhagolygon bod genedigaethau yn gostwng a chyfuniad o ardaloedd arfordirol, gwledig a threfol.

Mae gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 44 o sefydliadau cyn ysgol o dan gynllun gofalaeth Addysg y sir, 52 o ysgolion cynradd, 7 ysgol uwchradd, 1 Ysgol Arbennig a 4 Canolfan Addysg Cyfeirio Disgyblion. Mae natur ieithyddol amrywiol y Sir ynghyd ag amrywiaeth yn yr ardaloedd lle mae'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg wedi golygu fod gan Gonwy ysgolion ym mhob un o'r categorïau ieithyddol. *(Gweler Atodiad 1 Diffiniad ysgolion Conwy yn ôl darpariaeth cyfrwng Cymraeg)*

**Prif egwyddorion y cynllun**

- Darparu cychwyn cadarn i'r daith cyfrwng Cymraeg mewn cydweithrediad â'r holl randdeiliaid.
- Sicrhau dilyniant yn y Gymraeg a'r cyfrwng dysgu trwy gydol taith addysg plant a phobl ifanc Conwy.
- Cynnig cyfleoedd trochi ieithyddol priodol i ddisgyblion Conwy yn ôl yr angen.
- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg fel iaith gymdeithasol plant a phobl ifanc Conwy.
- Hybu'r ethos Cymreig gan gefnogi ac arwain ein Lleoliadau gofal plant / ysgolion i symud ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Sicrhau bod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn derbyn cyfleoedd ieithyddol cyfartal.
- Cynnig cyfleoedd i staff addysgu ddatblygu eu sgiliau a'u gallu ieithyddol i fod yn fwy hyderus i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.

**Amcanion**

- Sicrhau bod plant a phobl ifanc Conwy yn meddu'r sgiliau angenrheidiol i'w paratoi i fod yn ddinasyddion dwyieithog/amlieithog y dyfodol.
- Hyrwyddo manteision amlieithrwydd trwy godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth disgyblion o fanteision economaidd, gwybyddol, cymdeithasol, ieithyddol a diwylliannol Cymru.
- Datblygu sgiliau dwyieithog dysgwyr o fewn sefyllfaoedd ffurfiol ac anffurfiol fel bod y Gymraeg yn cael ei defnyddio'n naturiol i gyfathrebu.
- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i rieni gan gynnal cyfres o ymgyrchoedd a digwyddiadau cymunedol i deuluoedd mewn partneriaeth ag ystod o randdeiliaid perthnasol.
- Sicrhau fod darpariaeth y gwasanaethau a gynigir yn cynnig cyfleodd dysgu ac addysgu o'r ansawdd orau ar gyfer plant a phobl ifanc Sir Conwy ble bynnag y maent ar hyd y continwwm iaith.
- Sicrhau fod egwyddorion Cwricwlwm i Gymru 2022 yn galluogi plant a phobl ifanc Sir Conwy i wireddu eu potensial addysgol ac i fod yn hyderus ddwyieithog ac amlieithog.
- Datblygu a hyrwyddo rhaglenni hyfforddiant sirol, rhanbarthol a chenedlaethol sy'n cynnig cyfleoedd i uwchsgilio'r gweithlu lleoliad gofal plant / ysgolion i allu addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg yn hyderus.
- Parhau i hybu a chefnogi Trochi cynnar, cynnig cyfleoedd Trochi ieithyddol dwys i ddisgyblion cynradd trwy Canolfan Iaith Conwy a chefnogi cynlluniau Trochi canolig / hwyr y sir.
- Ystyried ehangu'r ddarpariaeth Trochi ieithyddol dwys yn y sir yn ddibynnol ar faterion megis cyllid, staffio a lleoliad.
- Adolygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ADY y sir yn ddibynnol ar faterion megis cyllid, staffio a lleoliad.

## Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd statudol o dan adran 10 o'r Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008 i hyrwyddo mynediad i addysg a hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae Polisi Cludiant Cartref i'r Ysgol y Cyngor yn ymrwymo'r Cyngor i ddarparu cludiant cartref i'r ysgol am ddim i ddisgyblion o oed ysgol orfodol sy'n cyfarfod y meini prawf pellter statudol i'r ysgol cyfrwng y Gymraeg agosaf.

Bydd disgyblion sydd yn mynychu'r Ganolfan Iaith yn derbyn cludiant cartref i'r ysgol am ddim os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol.

*Os yw'r ddarpariaeth Cyfrwng Cymraeg agosaf y tu allan i Sir Conwy, yna bydd y Sir yn dilyn yr un polisi ac yn darparu cludiant am ddim i'r ysgol Gymraeg agosaf, os ydynt yn cyfarfod y meini prawf pellter statudol. Fodd bynnag bydd rhaid o bosibl, ail ystyried polisi cludiant y Sir o safbwynt cludo plant ar draws y ffin, oherwydd y colliant i ysgolion Cymraeg Conwy. (Adran Gyfreithiol a Chyllid y Sir yn edrych ar hyn ar hyn o bryd gan fod goblygiadau costau uchel iawn yn y cyfnod trosiannol).*

Mae gan Sir Conwy ddyletswydd i gydymffurfio â dymuniad rhieni pan na fo rhif derbyn ysgol wedi'i gyrraedd.

# Deilliant 1

## Mwy o blant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

Fel rhan o ddatblygiad Cymorth i Deuluoedd ledled y Sir, mae'r Awdurdod Lleol wedi'i rannu'n 5 ardal fel y rhestrir isod:

| Ardal 1 Cymunedau Gorllewin Conwy | Ardal 2 Cymunedau Gogledd Conwy | Ardal 3 Cymunedau Canol Conwy | Ardal 4 Cynudau Dwyrain Conwy | Ardal 5 Cymunedau De Conwy |
|---|---|---|---|---|
| Conwy<br>Deganwy<br>Glan Conwy<br>Henryd<br>Cyff Llandudno<br>Llanfairfechan<br>Penmaenmawr | Llandudno<br>Craig y Don<br>Gogarth<br>Mostyn<br>Tudno<br>Bae Penrhyn<br>Penrhyn | Llandrillo yn Rhos<br>Mochdre<br>Bae Colwyn<br>Hen Golwyn<br>Llysfaen<br>Betws yn Rhos | Abergele<br>Bae Cinmel<br>Llanddulas<br>Llanfairtalhaiarn<br>Llannefydd<br>Llansannan<br>Pensarn<br>Towyn | Betws y Coed<br>Bro Garmon<br>Bro Machno<br>Caerhun<br>Capel Curig<br>Cerrigydrudion<br>Dolgarrog<br>Dolwyddelan<br>Eglwysbach<br>Llanddoged a Maenan<br>Llanfihangel Glyn Myfyr<br>Llangernyw<br>Llangwm<br>Llanrwst<br>Pentrefoelas<br>Trefriw |

**Darpariaeth Gofal Plant**
Nifer y lleoliadau sydd wedi'u cofrestru gyda Arolygaeth Gofal Cymru (Mawrth 2021)

| Dadansoddiad yn ôl math Mawrth 2021: | | |
|---|---|---|
| Gofal Dydd Llawn | 44 | 22 meithrinfeydd Dydd, gweddill yn bennaf yn ddarparwyr gofal cofleidiol.<br>Defnyddir 1 yn benodol gan un grŵp o bobl nad ydynt yn breswylwyr Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy fel encil i'w mamau newydd. |
| Clwb Allan o'r Ysgol | 19 | Llawer o feithrinfeydd dydd a gwarchodwyr plant hefyd yn darparu gofal plant ar ôl ysgol yn eu lleoliadau. |
| Sesiynol | 25 | |
| Gwarchodwyr Plant | 59 | |
| CYFANSWM | 147 | |

| Dadansoddiad Daearyddol yn ôl Ardal Lles Mawrth 2021 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Nifer y Lleoliadau ôl y Math** | **Canol** | **Dwyrain** | **Gogledd** | **De** | **Gorllewin** | **Cyfanswm** |
| Clwb Allan o'r Ysgol | 6 | 1 | 4 | 2 | 6 | 19 |
| Gofal Dydd Llawn - Meithrinfa Dydd | 5 | 4 | 6 | 3 | 5 | 23 |
| Gofal Dydd Llawn - gofal cofleidiol | 8 | 3 | 6 | 2 | 2 | 21 |
| Sesiynol | 6 | 3 | 3 | 6 | 7 | 25 |
| Gwarchodwyr Plant | 21 | 17 | 5 | 6 | 10 | 59 |
| CYFANSWM | 46 | 28 | 24 | 19 | 30 | 147 |

| Dadansoddiad yn ôl Math a lleoedd cofrestredig Mawrth 2021 | |
|---|---|
| Clwb Allan o'r Ysgol | 796 |
| Gofal Dydd Llawn - Meithrinfa Dydd | 972 |
| Gofal Dydd Llawn – gofal cofleidiol | 690 |
| Sesiynol | 627 |
| Gwarchodwyr Plant | 481 |
| CYFANSWM | 3566 |

**Data DEWIS Cymru**

- Mae Dewis yn blatfform data yng Cymru gyfan. Mae pob darparwr gofal plant yn ei gwblhau a'i ddiweddaru bob chwe mis.
- Defnyddir y wefan gan rieni i'w hysbysu o'r math o ofal plant sydd ar gael.
- Y wybodaeth isod yw barn y darparwr gofal plant o ba gategori iaith y mae'n cyflwyno'r gofal plant yn ei leoliadau.
  (* Sylwch na ellir cymharu'r data isod â'r data lleoedd cofrestredig Arolygiaeth Gofal Cymru gan fod rhai Cylchoedd Meithrin a Chylchoedd Chwarae yn draddodiadol sesiynol ond maent bellach wedi'u cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) fel gofal dydd llawn.)

| Cylchoedd / Playgroups | | |
|---|---|---|
| **Iaith** | **Nifer darparwyr** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 1 | 2.50% |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 1 | 2.50% |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 20 | 50.00% |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 18 | 45.00% |

Nododd 5 x Cylchoedd Chwarae ar Dewis eu bod yn gyfrwng Saesneg a Chymraeg. Gan eu bod yn cynrychioli Mudiad Meithrin ac yn llofnodi i'w polisi Cymraeg eu bod yn gyfrwng Cymraeg - felly mae'r ffigurau uchod wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn.

| Gwarchodwr Plant | | |
|---|---|---|
| **Iaith** | **Nifer darparwyr** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 14 | 25.00% |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 18 | 32.14% |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 21 | 37.50% |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 3 | 5.36% |

| Meithrinfeydd Dydd | | |
|---|---|---|
| **Iaith** | **Nifer darparwyr** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 8 | 36.36% |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 2 | 9.09% |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 11 | 50.00% |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 1 | 4.55% |

| Clybiau Allan o Ysgol | | |
|---|---|---|
| **Iaith** | **Nifer darparwyr** | **% o'r cyfanswm** |
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 10 | 35.71% |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 3 | 10.71% |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 13 | 46.43% |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 2 | 7.14% |

Nid yw 4 x darpariaeth y tu allan i'r ysgol wedi cofrestru gydag Arolygiaeth Gofal Cymru maent yn gweithredu o dan ddwy awr (1 x Cymraeg yn unig, 3 x cyfrwng Saesneg a Chymraeg)

Mae'r data uchod o Dewis wedi'i ddadelfennu ymhellach yn ôl nifer y lleoedd yn y lleoliadau.

| Lleoedd mewn Cylchoedd Chwarae a Cylchoedd yn ôl categori iaith | Nifer lleoedd |
|---|---|
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 23 |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 30 |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 513 |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 426 |

Nododd 5 x Cylchoedd Chwarae ar Dewis eu bod yn gyfrwng Saesneg a Chymraeg. Gan eu bod yn cynrychioli Mudiad Meithrin ac yn llofnodi i'w polisi Cymraeg eu bod yn gyfrwng Cymraeg - felly mae'r ffigurau uchod wedi'u diwygio i adlewyrchu hyn.

| Lleoedd mewn Gwarchodwyr Plant yn ôl categori iaith | Nifer lleoedd |
|---|---|
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 121 |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 129 |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 188 |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 22 |

| Lleoedd mewn Meithrinfeydd Dydd yn ôl categori iaith | Nifer lleoedd |
|---|---|
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 411 |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 164 |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 523 |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 30 |

| Lleoedd mewn clybiau y tu allan i'r ysgol yn ôl categori iaith | Nifer lleoedd | |
|---|---|---|
| Cyfrwng Saesneg a Cymraeg | 309 | 44 hefyd wedi'u cynnwys mewn man arall naill ai fel gofal dydd llawn neu gofrestriadau ar y cyd |
| Cyfrwng Saesneg yn unig | 138 | 64 hefyd wedi'u cynnwys mewn man arall naill ai fel gofal dydd llawn neu gofrestriadau ar y cyd |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 591 | 231 hefyd wedi'u cynnwys mewn man arall naill ai fel gofal dydd llawn neu gofrestriadau ar y cyd |
| Cyfrwng Cymraeg yn unig | 39 | |

Mae yna hefyd dri clwb anghofrestredig y tu allan i ysgolion sydd ynghlwm ag ysgolion mewn ardaloedd gwledig.

**CWLWM**
Mae Cwlwm yn cynnig dull amlasiantaeth integredig a dwyieithog o ddatblygu, cefnogi, cynghori a hyfforddi. Mae’r dull cydlynus a strategol hwn o weithredu yn sicrhau y ceir cysondeb o ran ansawdd ac arbedion effeithlonrwydd o ran darparu cymorth ac arweiniad ac mae’n cyflwyno atebion arloesol i ddiwallu anghenion lleol.

**Darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg**

- 20 lleoliad Cymraeg (18 cylch a 2 feithrinfa dydd) a 27 lleoliad Saesneg (22 Cylch Chwarae a 5 meithrinfa dydd) sydd yn dod o dan ambarel y Mudiad Meithrin, Blynyddoedd Cynnar Cymru, National Day Nurseries Association (NDNA). Mae'r lleoliadau hyn yn darparu Addysg Blynyddoedd Cynnar.
- Parhau i gefnogi’r elfen addysg o’r ddarpariaeth yn y cylchoedd o dan arweiniad Swyddogion sir a Thîm Athrawon Ymgynghorol Addysg Blynyddoedd Cynnar

| Enw’r lleoliadau cyfrwng Cymraeg | |
|---|---|
| Cylch Abergele | Cylch Ffrindiau Bach Llanrwst |
| Cylch Awel y Mynydd | Cylch Llanddoged |
| Cylch Bae Cinmel | Cylch Llangelynnin |
| Cylch Bae Colwyn | Cylch Llansannan |
| Cylch Bae Penrhyn | Cylch Morfa Rhianedd |
| Cylch Betws yn Rhos | Cylch Penmaenmawr |
| Cylch Bro Cernyw | Cylch Pentrefoelas |
| Cylch Cerrigydrudion | Cylch Talhaiarn |
| Cylch Dolgarrog | Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg |
| Cylch Eglwysbach | Meithrinfa Twt Lol |

- Angen ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg a dwyieithog.
- Mae angen mwy o ddrapariaeth a siaradwyr Cymraeg ymhob maes Gofal Plant ar draws y sir.

**CWLWM**
Mae Cwlwm yn dod â dull integredig a dwyieithog amlasiantaethol o ddatblygu, cefnogi, cyngor a hyfforddiant. Mae'r dull strategol cydgysylltiedig hwn yn sicrhau cysondeb o ran ansawdd ac effeithlonrwydd wrth gefnogi, arwain a darparu atebion arloesol i anghenion lleol.

**Data Dilyniant Mudiad Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg (2019/20):**

- Mwyafrif helaeth y plant sy'n mynychu Cylch Meithrin yn trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cylch Meithrin Bae Cinmel yn gylch newydd Sefydlu A Symud (SAS) ac nid oes arferiad o deithio i addysg Gymraeg er hyn mae 21.43% wedi trosglwyddo i addysg cyfrwng Cymraeg.
- Cylch Meithrin Bae Penrhyn yn nalgylch Ysgol Glanwydden sydd yn ysgol sydd wedi ei diffinio fel ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn bennaf ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg.
- Cylch Hen Golwyn 1 a 2 wedi cau yn ystod 2018-19 ac wedi uno efo Cylch Bae Colwyn a fydd ar safle newydd Ysgol Bod Alaw.

**Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif:**

- Awel y Mynydd – dosbarth ychwanegol ar y safle i'r Cylch Meithrin ar waith
- Llanfairtalhaiarn – estyniad pwrpasol ar safle'r ysgol i'r Cylch Meithrin cynllunio ar waith
- Cylch Colwyn – uno Cylchoedd Meithrin Hen Golwyn a Bae Colwyn mewn adeilad pwrpasol ar safle Ysgol Bod Alaw ar waith.
- Cynllunio ceisiadau ar gyfer Cyllid Cyfalaf Cymraeg newydd 2021

**Ysgolion sy'n darparu addysg i blant 3 oed (cyn ysgol)**

- 7 o ysgolion bach gwledig cyfrwng Cymraeg y sir yn darparu addysg i blant 3 oed (cyn ysgol) gan nad oes darpariaeth leol – Ysgol Llannefydd, Ysgol Ysbyty Ifan, Ysgol Penmachno, Ysgol Dolwyddelan, Ysgol Capel Garmon, Ysgol Betws y Coed, Ysgol Pentrefoelas

**Rhaglenni Cefnogaeth Ychwangeol**

- Mae Dechrau'n Deg yn darparu gofal plant sesiynol am ddim i bob plentyn 2 - 3 oed sy'n byw yn ardaloedd daearyddol Dechrau'n Deg mewn lleoliadau gofal plant cymeradwy.
- Mwyafrif o ddarparwyr gofal plant wedi'u cofrestru i ddarparu Cynnig Gofal Plant Llywodraeth Cymru ar gyfer plant 3-4 oed yng Nghonwy.

| **Iaith**<br>*(*fel y nodwyd ar gronfa ddata Dewis gan y darparwyr)* | **Nifer darparwyr** |
|---|---:|
| Cyfrwng Saesneg a Chymraeg | 31 |
| Saesneg yn unig | 20 |
| Saesneg gyda defnydd o elfennau dwyieithog | 59 |
| Cymraeg yn unig | 18 |
| Cyfanswm | 128 |

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau sirol**

- Ymgynghori i gynllunio i gynyddu'r ddarpariaeth cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn ystod oes y cynllun hwn, gan hwyluso dilyniant ieithyddol ar draws y cyfnod Sylfaen trwy raglenni cyfalaf.
- Trwy'r Asesiad Digonolrwydd Gofal Plant, nodi a chynllunio mesurau
    - i gryfhau ac ehangu darpariaeth gofal plant cyfrwng Cymraeg
    - i sicrhau llwybr di-dor tuag at addysg cyfrwng Cymraeg
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysu rhieni am gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau a llwybrau cyfrwng Cymraeg drwy wefan DEWIS Cymru, GGD a gwefan Mudiad Meithrin.
- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysu rhieni am gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau a llwybrau Cymraeg / dwyieithog trwy wefan DEWIS Cymru a GGD.

- Gweithio gyda'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i hysbysu rhieni am gyfleoedd i gael mynediad at weithgareddau addysg gynnar cyfrwng Cymraeg.
- Medi 2022 ymlaen lleoliadau nas cynhelir i ddilyn Cwricwlwm pwrpasol ar gyfer y sector o dan arweiniad a chefnogaeth Swyddogion sir a Thîm Athrawon Cynghori Addysg y Blynyddoedd Cynnar.
- Cyfeirir rhieni newydd plant oed ysgol at y Swyddog Derbyniadau a fydd yn dosbarthu gwybodaeth yn nodi darpariaeth ieithyddol i ddisgyblion o fewn sefydliadau blynyddoedd cynnar hyd 7 oed yr awdurdod. Bydd hefyd yn nodi manteision dwyieithrwydd a byw mewn cymdeithas ddwyieithog/amlieithog y dyfodol.

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i bawb beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol trwy gydweithio â rhanddeiliaid lleol / cenedlaethol a thrwy lwyfannau digidol a chymdeithasol y sir.
- Cydweithio gyda phartneriaid yn y colegau addysg bellach i hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y gweithle a'r angen am warchodwyr/gweithlu gofal plant Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.
- Hyrwyddo gweithgareddau iaith Gymraeg ym mhob lleoliad gofal plant ledled y sir yn unol â digwyddiadau / rhaglenni cenedlaethol (Eisteddfod / Urdd / Cymraeg i Blant)
- Parhau i ymgyrchu ac annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn.

**Hyfforddi a Recriwtio**

- Ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol i recriwtio a chadw staff sy'n siarad Cymraeg a dwyieithog
- Gweithio gydag asiantaethau partner i godi'r proffil ac annog gofal plant fel opsiwn gyrfa
- Sicrhau partneriaeth agos gydag ysgolion uwchradd a cholegau addysg bellach Conwy, cynlluniau a phrentisiaethau Mudiad Meithrin, Y Ganolfan Dysgu Cymraeg i sicrhau bod gweithlu digonol cyfrwng Cymraeg yn y sector gofal plant.
- Parhau i hyrwyddo cyfleoedd hyfforddi i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus yn y sector blynyddoedd cynnar / gofal plant trwy raglan Academi Mudiad Meithrin
- Hyrwyddo rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol am ddulliau trochi iaith effeithiol yn y blynyddoedd cynnar trwy raglen cenedlaethol Mudiad Meithrin Croesi'r Bont.
  Rhaglen ar gael ar gyfer cylchoedd, meithrinfeydd preifat sydd awydd cychwyn cynnig mwy o Gymraeg a chylchoedd meithrin Dechau'n Deg gyda phlant 2 oed. Mae'r Adnoddau yn barod ar gael i'w rhannu â dosbarithiadau meithrin.
- Hyrwyddo rhaglenni hyfforddiant iaith cenedlaethol i weithlu gofal plant presennol (a'r dyfodol).
- Adolygu a chynllunio darpariaeth cyn ysgol ar y cyd a rhaglen Sefydlu A Symud (SAS) Mudiad Meithrin sy'n cyd-fynd ag amserlen ad-drefnu ysgolion yn unol â chanllawiau ac amserlen *Categoreiddio Ysgolion yn ôl eu Darpariaeth o'r Gymraeg* i hybu a chefnogi ysgolion ar hyd y continwwm iaith.

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

Cyd-weithio â Mudiad Meithrin / Blynyddoedd Cynnar Cymru (sy'n cefnogi'r lleoliadau) / NDNA / Clybiau Plant Cymru / Pacey Cymru a Phwyllgorau Rheoli perthnasol:

- i wella dealltwriaeth rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg a'r manteision o gychwyn y daith addysg yn gynnar.
- gwella dealltwriaeth a rhesymeg wrth drosglwyddo i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Meithrin 3 oed yn yr ysgolion lleol.
- Parhau i gyd weithio gyda Mudiad Meithrin, Cymraeg i Blant, Cylchoedd Ti a Fi, Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoeddd, Canolfannau Teulu a Dechrau'n Deg i gefnogi rhieni a phlant i ddechrau'r daith addysg cyfrwng Cymraeg trwy'r dull trochi.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Gyda mewnfudo ac allfudo rheolaidd yn ffactor a'r rhagolygon poblogaeth yn awgrymu cwymp yn niferoedd y plant oedran ysgol dros y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol ein bod ni'n cynllunio:
  - ar gyfer gwarchod ein darpariaeth Cymraeg bresennol
  - i ehangu'r capasiti cyfrwng Cymraeg
  - i symud ein ysgolion presennol ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y Fforwm yn datblygu ffyrdd o gefnogi a chydweithio â darparwyr gofal plant:
  - i gynnal niferoedd o blant mewn dosbarthiadau meithrin cyfrwng Cymraeg
  - i gynnal ac i adeiladu ar niferoedd y cylchoedd meithrin ar draws y sir er mwyn bwydo dosbarthiadau meithrin yr ysgolion.
  - 

## Data Allweddol

Nodir canran y plant 3 oed (cyn ysgol) cyfrwng Cymraeg Conwy. Yn 2020/21 mae'r ganran honno oddeutu 40%. Erbyn diwedd y cynllun hwn hyderir y byddwn yn cynyddu'r ganran i oddeutu 60%.

**Niferoedd a % y plant meithrin/ tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 40% | | 42% | | 46% | | 48% | | 50% |
| | | | | | | | | | |
| | 52% | | 54% | | 56% | | 58% | | 60% |

# Deilliant 2

## Mwy o blant dosbarth derbyn/ pump oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

**Nodir niferoedd/canran o holl ddisgyblion 5 oed sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion Conwy.**

| Ysgolion cyfrwng Cymraeg | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | | Cyfredol 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin | 320 | 30.5 | 312 | 30.0 | 281 | 27.5 | 258 | 25.9 |
| Derbyn | 294 | 25.6 | 278 | 25.3 | 279 | 25.7 | 288 | 26.9 |
| Bl.1 | 274 | 22.0 | 279 | 23.4 | 296 | 25.5 | 283 | 25.6 |

**Nodir niferoedd/canran o holl ddisgyblion 5 oed sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg ond â defnydd sylweddol o'r Gymraeg yn ysgolion Conwy.**

| Ysgolion categori 4 | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | | Cyfredol 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin | 335 | 31.9 | 332 | 31.8 | 357 | 34.8 | 303 | 30.4 |
| Derbyn | 364 | 31.7 | 348 | 31.7 | 358 | 32.9 | 347 | 33.0 |
| Bl.1 | 384 | 32.4 | 364 | 31.7 | 348 | 31.7 | 358 | 32.9 |

**Nodir niferoedd/canran o holl ddisgyblion 5 oed sydd mewn addysg cyfrwng Saesneg yn ysgolion Conwy.**

| Ysgolion categori 5 | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | | Cyfredol 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Meithrin | 395 | 37.6 | 399 | 38.2 | 405 | 37.7 | 435 | 43.8 |
| Derbyn | 491 | 42.7 | 472 | 43.0 | 449 | 41.3 | 436 | 40.7 |
| Bl.1 | 516 | 43.5 | 491 | 42.7 | 472 | 43.0 | 449 | 41.3 |

**Ysgolion sy'n darparu addysg i blant 4 oed (dosbarth meithrin)**

- 21 o ysgolion cyfrwng Cymraeg y sir yn darparu addysg i blant 4 oed (dosbarth Meithrin)

**Ysgolion**

- Tîm Ymgynghorol y Gymraeg Conwy yn cydweithio â'r ysgolion i gefnogi a hyrwyddo datblygiad y Gymraeg.
- Cefnogi 52 o ysgolion Babanod / Cynradd y Sir i symud ar hyd y continwwm.
- Cynnal cyfres o hyfforddiant pwrpasol
    - cyflwyno y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen
    - methodoleg addysgu iaith
    - hyrwyddo a rhoi mewnbwn i'r Cynllun Sabothol a chefnogaeth dilynol o fewn ysgolion er mwyn uwch sgilio staff
    - parhau i ddatblygu cynlluniau i gefnogi addysg y disgyblion er mwyn sicrhau eu bod â'r sgiliau i fedru symud ar hyd y continwwm

**Cynllun Trochi addysg cyn ysgol i addysg dosbarth meithrin**

- pontio ieithyddol yn digwydd rhwng y cylchoedd Meithrin a dosbarth meithrin yr ysgol trwy gynllun Trochi Croesi'r Bont

**Nodir nifer cylchoedd a disgyblion sydd wedi dilyn Cynllun Croesi'r Bont**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 | | Cyfredol 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 113 | 7 | 110 | 6 | 96 | 11 | 151 |

**Cynllun Trochi Cyfnod Sylfaen**

- Pecyn arweiniad i ymarferwyr mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg:
  - i gynllunio ar gyfer adfer sgiliau ieithyddol eu dysgwyr
  - model posib o gefnogaeth sy'n ystyried sefyllfa ieithyddol yr ysgolion
  - i gefnogi ymhellach dysgwyr, rhieni a gofalwyr ble nad yw'r Gymraeg yn cael ei siarad gartref

**Canolfan Iaith Conwy**

- Cynllun trochi dwys i disgyblion rhwng 7-11 oed sy'n hwyrddyfodiaid i ysgolion cyfrwng Cymraeg yr awdurdod.
- Prif fwriad y cynllun yw sicrhau fod disgyblion yn integreiddio'n llawn i fywyd yr ysgol a'r gymuned y maent yn rhan ohoni.
- Cwrs wedi'i strwythuro'n ofalus i sicrhau rhuglder ar lafar yn ogystal â meithrin sgiliau darllen ac ysgrifennu am gyfnod o dymor.
- 12 disgybl gydag athrawes a chymhorthydd llawn amser
- Lleoliad parhaol yn y sir ar safle Ysgol Dyffryn yr Enfys sydd wedi'i deilwra i anghenion trochi dwys.
- Parhau i gynnig cyfleoedd i ddisgyblion cynradd fynychu Canolfan Iaith Conwy am dymor.
- Parhau i gynnwys cefnogaeth cyn ac ôl ofalaeth fel bo'r angen wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.
- Parhau i gynnig sesiynau Gloywi Iaith pellach fel bo'r angen wyneb yn wyneb neu'n rhithiol.

**Nodir niferoedd disgyblion hwyrddyfodiaid CA2 (7-11 oed) sydd wedi mynychu Canolfan Iaith Conwy ac sydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion Conwy.**

| Cwrs Dwys Tymor | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Tymor yr Hydref | 20 | 2 ddosbarth | 12 | | 6 | | 12 | |
| Tymor y Gwanwyn | 12 | | 11 | | 6* | | 12* | |
| Tymor yr Haf | 10 | Gloywi iaith | | Ôl-ofal yn yr ysgolion | * | | 12 | |

***Cwrs / cefnogaeth wedi digwydd yn rhithiol trwy Hwb / Google Classroom / Teams**

**Cefnogaeth Cyn Canolfan ac ôl-ofaelaeth**

- Sesiynau yn cael eu cynnig yn ôl yr angen ac yn ôl capasiti staff.
- Sesiynau wedi'u cynnal yn rhithiol trwy Hwb / Google Clasroom / Teams ers Mawrth 2020.

**Cynllun Trochi Creuddyn**

- Parhau i gefnogi Cynllun Trochi Creuddyn gan gydweithio â'r ysgol i farchnata a hyrwyddo'r cynllun ymhellach ymysg rhieni darpar fyfyrwyr.

**Niferoedd disgyblion sy’n mynychu Cwrs Trochi Hwyr Creuddyn**

| 2017-18 | 2018-19 | 2019-20 * | 2020-21* |
|---|---|---|---|
| 30 | 35 | 32 | 27 |

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

Nodir yn glir yn Cymraeg 2050 mai trochi cyfrwng Cymraeg - lle mae cyfrwng yr addysgu a'r dysgu yn cael ei gyflwyno'n gyfan gwbl neu'n bennaf drwy gyfrwng y Gymraeg - yw'r model mwyaf dibynadwy ar gyfer creu siaradwyr Cymraeg gyda'r sgiliau a'r hyder i ddefnyddio'r iaith yn gyfforddus yn eu bywydau bob dydd.

**Categoreiddio Ysgolion yn ôl eu Darpariaeth o’r Gymraeg**

- Ymgynghori a chydweithio gyda phenaethiaid, cyrff llywodraethol a rhanddeiliaid allweddol holl ysgolion Conwy yn unol ag amserlen ad-drefnu ysgolion.
- Hybu a chefnogi ysgolion ar hyd y continwwm iaith.
- Ymgynghori ar greu darpariaeth meithrin a chyfnod sylfaen cyfrwng Cymraeg i gyd-fynd â’r amserlen gytunedig gan blethu gyda gwaith ehangu darpariaethau cyn ysgol cyfrwng Cymraeg yn Neilliant 1.
- Cynnal proses ymgynghori yn yr ysgolion sy’n barod i symud ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Ystyried unrhyw gyllidebau / grantiau gan LlC i sicrhau cefnogaeth i’r weledigaeth
- ystyried y targed i gynyddu nifer y plant Blwyddyn 1 a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau i sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddilyn llwybr cyfrwng Cymraeg wrth drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd
- Bydd Conwy’n cydweithio’n agos gyda Chyngor Sir Ddinbych a Sir Gwynedd, er mwyn sicrhau bod disgyblion yn parhau i ddilyn llwybr cyfrwng Cymraeg pan yn mynychu ysgolion trawsffiniol megis Ysgol Glan Clwyd, Ysgol Bryn Hyfryd, Ysgol Tryfan ac Ysgol Godre’r Berwyn.

**Cynlluniau Sirol**

- Parhau i gefnogi’r pontio ieithyddol trwy Raglen Drochi Croesi’r Bont â dosbarthiadau Meithrin Ysgolion.
- Parhau i arwain, hybu a chefnogi Trochi cynnar yn yr ysgolion trwy Gynllun Trochi Cynradd Conwy.
- Parhau i fonitro capasiti darpariaeth Canolfan Iaith Conwy.
- Ystyried ehangu’r ddarpariaeth Trochi ieithyddol dwys yng ngorllewin y sir yn ddibynnol ar faterion megis cyllid, staffio a lleoliad e.e. canolfan loeren
- Trochi Hwyrddyfodiaid i addysg cyfrwng Cymraeg Uwchradd - ehangu capasiti Tîm Ymgynghorol y Gymraeg Conwy trwy benodi athro/athrawes parhaol:
  - i adeiladu ar y ddarpariaeth bresennol i gefnogi cynlluniau Trochi ieithyddol dwys hwyrddyfodiaid cynradd / uwchradd.
  - i gefnogi hwyrddyfodiad i addysg Uwchradd
- Drwy barhad fuddsoddiad ariannol sylweddol a chefnogaeth bendant Cyngor Sir Conwy, bydd y ddarpariaeth drochi yn parhau.
- Cydweithio efo Canolfannau Iaith Gwynedd, Môn a Sir Ddinbych

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Parhau i farchnata Canolfan Iaith Conwy a darpariaeth drochi'r sir.
- Parhau i ymgyrchu darpariaeth drochi, i bawb beth bynnag fo’u cefndir ieithyddol, trwy lwyfannau digidol a chymdeithasol y sir.

**Hyfforddi a Recriwtio**

- Buddsoddi mewn cyfleoedd hyfforddi i ddarparu datblygiad proffesiynol parhaus ar draws yr holl sectorau.
- Cynllunio rhaglen gefnogol o ddysgu proffesiynol i uwchsgilio y gweithlu am
    - ddulliau trochi iaith effeithiol ar draws yr holl sectorau
    - cefnogi datblygiad iaith y gweithlu yn seiliedig ar ganlyniadau SWAC blynyddol

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

- Parhau i gyd-weithio â rhanddeiliad allweddol megis LlC / Prifysgol Bangor / Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Y Ganolfan Dysgu Cymraeg / GwE / ESTYN / Mudiad Meithrin:
    - i wella dealltwriaeth rhieni o addysg cyfrwng Cymraeg a'r manteision i ddisgyblion a daith addysg ar draws yr holl sectorau.
    - i wella dealltwriaeth a rhesymeg i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Gyda mewnfudo ac allfudo rheolaidd yn ffactor a'r rhagolygon poblogaeth yn awgrymu cwymp yn niferoedd y plant oedran ysgol dros y blynyddoedd nesaf, mae'n hanfodol ein bod ni'n cynllunio:
    - ar gyfer gwarchod ein darpariaeth Cymraeg presennol
    - i ehangu'r capasiti cyfrwng Cymraeg
    - i symud ein hysgolion presennol ar hyd y continwwm ieithyddol.
- Mewn partneriaeth â rhanddeiliaid y Fforwm yn datblygu ffyrdd o gefnogi a chydweithio â ysgolion:
    - i gynyddu'r niferoedd o blant mewn dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg ar draws yr holl sectorau

## Data Allweddol

Nodir canran y plant 5 oed fydd mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn ysgolion cyfrwng Cymraeg Conwy.
Yn 2020/21 mae'r ganran honno oddeutu 24%. Erbyn diwedd y cynllun hwn hyderir y byddwn yn cynyddu'r ganran i oddeutu 40%.

**Niferoedd a % y plant 5 oed sy'n derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg**

| 2022 - 2023 | 2023 - 2024 | 2024 - 2025 | 2025 - 2026 | 2026 - 2027 |
|---|---|---|---|---|
| 24% | 26% | 28% | 30% | 32% |
| **2027 - 2028** | **2028 - 2029** | **2029 - 2030** | **2030 - 2031** | **2031 - 2032** |
| 32% | 34% | 36% | 38% | 40% |

# Deilliant 3

## Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

### Ble rydym ni nawr?

25.6% o ddisgyblion Blwyddyn 1 Conwy sydd yn dilyn llwybr addysg cyfrwng Cymraeg yn 2020/21.

**Data CA1**
**Nifer/% sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA1:**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 ** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 287 | 24.2% | 294 | 25.3% | 296 | 25.8% | 275 | 24.9% |

**Nifer/% Datblygu'r Gymraeg yn yr ysgolion cyfrwng Saesneg ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA1:**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 899 | 75.8% | 867 | 74.7% | 850 | 74.2% | 828 | 75.1% |

**Data CA2**
**Nifer/% sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA2:**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 263 | 23.8% | 291 | 25.5% | 243 | 21.8% | 277 | 23.1% |

*****answyddogol oherwydd Covid-19*****

**Nifer/% sy'n cael eu hasesu Cymraeg fel ail iaith ers 2017/18 fel cyfanswm a chanran o holl ddisgyblion CA2:**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 ** | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 841 | 76.2% | 848 | 74.5% | 871 | 78.2% | 920 | 76.9% |

**Data CA3**
**Mae'r nifer a chyfanswm y disgyblion sy'n cael eu hasesu yn y Gymraeg fel pwnc Iaith 1af ym mlwyddyn 9 fel a ganlyn ers 2017/18:**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 203 | 18.8% | 210 | 19.1% | 194 | 17.5% | 194 | 18.0% |

*****answyddogol oherwydd Covid-19*****

**Blwyddyn 9: Asesiad Ail Iaith**

| 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20 * | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 875 | 81.2% | 888 | 80.9% | 916 | 82.5% | 885 | 82% |

*****answyddogol oherwydd Covid*****

**Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru**

- Awdurdod yn mapio'r ddarpariaeth addysg bresennol gan ddefnyddio data CYBLD / canlyniadau holiadur sirol fel gwaelodlin.
- Trafodaethau cychwynnol gyda'r Penaethiaid / Cadeiryddion Llywodraethwyr / Deilydd Portffolio Addysg / Cynghorwyr / Uwch swyddogion sir / Bwrdd Rhaglen Cyfalaf

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau sirol**

- Parhau i arwain, cefnogi, hyfforddi o dan arweiniad Tîm Ymgynghorol y Gymraeg.
- Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru
- Erbyn Gorffennaf 2022 awdurdod yn cytuno â rhanddeiliaid ar ddarpariaeth Cymraeg pob ysgol o ran y weledigaeth yn y CSGA.
- Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r ysgolion i weithredu ac ymgyrraedd â'r targedau addysgol/ieithyddol disgwyliedig dros gyfnod y cynllun a thu hwnt.
- Cynnal ac adeiladu ar nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg presennol i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd
- Cefnogi'r ysgolion ar draws yr holl sectorau er mwyn cynyddu'r niferoedd o blant mewn addysg cyfrwng Cymraeg
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn sgil y Categoreiddio Ysgolion yn cael ei gynnwys o fewn *Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*
- Parhau ac adeiladu ar weithdrefnau trochi cynnar yn y cyfnod 3-8 oed yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg.
- Sefydlu gweithdrefnau trochi cynnar cadarn yn yr cyfnod 3-8 oed yn yr ysgolion trosiannol.
- Adeiladu ar y weithdrefn gadarn a osodwyd yn flaenorol fel bod disgyblion 7-12 oed yn medru parhau i ddatblygu eu medrau ieithyddol wrth drosglwyddo i addysg uwchradd.
- Ymgynghori gyda'r rhanddeiliaid perthnasol i gynllunio datblygiad a dilyniant ieithyddol yr ysgolion trosiannol o 11-16 oed.
- Blaengynllunio ar gyfer cynnyddu nifer y disgyblion sy'n astudio ar gyfer cymwysterau ac sy'n cael eu hasesu drwy gyfrwng y Gymraeg ar draws yr ysgolion uwchradd.
- Cefnogaeth trwy hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith i staff a disgyblion ysgolion uwchradd
- Parhau i gynnal ac ehangu'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus ar draws yr holl sectorau. (Gweler Deilliant 5).

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Arfogi'r gweithlu gydag ymatebion ar sut i ddarbwyllo rhieni ynglŷn â buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg.
- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i bawb beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol ar lwyfannau digidol a chymdeithasol yr ysgolion a'r sir.

- Cydweithio gyda phartneriaid yn y colegau addysg bellach i hyrwyddo manteision y Gymraeg yn y gweithle a'r angen am athrawon a chymorthyddion Cymraeg eu hiaith yn y dyfodol.
- Hyrwyddo gweithgareddau iaith Gymraeg ledled y sir yn unol â digwyddiadau / rhaglenni cenedlaethol (Eisteddfod / Urdd / Cymraeg i Blant)
- Parhau i ymgyrchu ac annog mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiwn.

**Hyfforddi a Recriwtio**

- Hyfforddi staff addysgu gydag addysgeg gyfredol megis Trochi Llafar, Cwricwlwm i Gymru, Llythrennedd a Chymraeg
- cynnig arweiniad i ysgolion ar sut i symud y disgyblion ar hyd y continwwm ieithyddol
- rhannu adnoddau ac arfer dda trwy rwydweithiau Hwb a chynadleddau sirol a chenedlaethol
- Dadansoddi canlyniadau Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg (SWAC) i adnabod anghenion hyfforddiant y gweithlu
- Ehangu capasiti Tîm Ymgynghorol y Gymraeg i gyflawni'r targedau o fewn y CSGA.

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

- Rhanddeiliad allweddol, megis LlC / Prifysgol Bangor / Coleg Llandrillo Menai / Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Y Ganolfan Dysgu Cymraeg / GwE / ESTYN / CYDAG / RhAG, i gyd-weithio i gefnogi gweledigaeth a dyhead yr awdurdod.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

**Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg' (Llywodraeth Cymru)**

- Ysgolion trosiannol wedi newid categori ieithyddol yr ysgol o fewn amserlen y cynllun
- Parhau i ymgynghori gyda rhanddeiliaid ysgolion yr holl sectorau wrth iddynt symud ar hyd y continwwm ieithyddol erbyn 2032.

## Data Allweddol

Ym Medi 2020 trosglwyddodd 246 (21.8%) o ddisgyblion Blwyddyn 6 ar draws ysgolion cynradd Conwy i addysg cyfrwng Gymraeg uwchradd. Trosglwyddodd 881 (78.2%) o'r un fintai i addysg cyfrwng Saesneg uwchradd.

**Nifer a chanran y disgyblion Blwyddyn 1 – 6 sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Ionawr 2021 (CYBLD 2021)**

| | Bl.1 | | Bl.2 | | Bl.3 | | Bl.4 | | Bl.5 | | Bl.6 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 283 | 25.6% | 296 | 25.5% | 279 | 23.4% | 274 | 22.0% | 281 | 23.0% | 243 | 21.6% |
| Cyfrwng Saesneg | 824 | 74.4% | 864 | 74.5% | 915 | 76.6% | 938 | 77.4% | 943 | 77.0% | 882 | 78.4% |

**Nifer a chanran y disgyblion Blwyddyn 7 – 13 sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Ionawr 2021 (CYBLD 2021)**

| | Bl.7 | | Bl.8 | | Bl.9 | | Bl.10 | | Bl.11 | | Bl.12 | | Bl.13 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 246 | 21.8% | 200 | 17.9% | 195 | 17.1% | 209 | 18.7% | 190 | 18.3% | 128 | 20.5% | 107 | 21.8% |
| Cyfrwng Saesneg | 881 | 78.2% | 917 | 82.1% | 944 | 82.9% | 906 | 81.3% | 848 | 81.7% | 496 | 79.5% | 383 | 78.2% |

## Niferoedd a % y dysgwyr sy'n parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 21% | | 21.5% | | 22% | | 23% | | 24% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 – 2032** | |
| | 25% | | 26% | | 27.5% | | 29.5% | | 31% |

# Deilliant 4

## Mwy o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

**Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru**

- Awdurdod yn mapio'r ddarpariaeth addysg bresennol gan ddefnyddio data CYBLD / canlyniadau holiadur sirol fel gwaelodlin.
- Trafodaethau cychwynnol gyda'r Penaethiaid / Cadeiryddion Llywodraethwyr / Deilydd Portffolio Addysg / Cynghorwyr / Uwch swyddogion sir / Bwrdd Rhaglen Cyfalaf

**Canran disgyblion a drosglwyddodd o addysg cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd i addysg gyfrwng Cymraeg yn yr ysgol uwchradd:**

| 2018 | 2019 | 2020 |
|---|---|---|
| 84.1 | 82.5 | 86.3 |

**Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio manyleb iaith gyntaf**

| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20* | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CA3 | 203 | 18.8% | 210 | 19.1% | 194 | 17.5% | 194 | 18.0% |
| CA4 | 205 | 20.7% | 194 | 19.5% | 189 | 18.7% | 208 | 19.6% |
| CA5 | 105 | 20.0% | 120 | 22.4% | 107 | 22.4% | 128 | 23.1% |

***CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN**

**Nifer a chanran y disgyblion sy'n astudio manyleb ail iaith**

| | 2017-18 | | 2018-19 | | 2019-20* | | 2020-21 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| CA3 | 875 | 81.2% | 888 | 80.9% | 916 | 82.5% | 885 | 82% |
| CA4 | 787 | 79.3% | 802 | 80.5% | 823 | 81.3% | 854 | 80.4% |
| CA5 | 420 | 80% | 415 | 77.6% | 371 | 77.6% | 427 | 76.9% |

***CA3 - Oherwydd cyfyngiadau Covid-19 mae'r data ar gyfer CA3 YN ANGHYFLAWN**

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y disgyblion sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg.

| 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| **Dyffryn Conwy**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.<br>Mae 90/100 yn dilyn Cymraeg Iaith | **Dyffryn Conwy**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.<br>Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg Iaith | **Dyffryn Conwy**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.<br>Mae 91/104 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf. | **Dyffryn Conwy**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn.<br>Mae 99/120 (82.5%) yn dilyn Cymraeg Iaith |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gyntaf. 83 yn Gymraeg Iaith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-4 ond heb newid cyfrwng. | Gyntaf. Rhagwelwn y byddant i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfwng y Gymraeg. | Rhagwelwn y byddant i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. | Gyntaf. Rhagwelwn y byddant i gyd yn cael eu cofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach |
| **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>105 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>81 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>83 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>90 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf |

Ein sefyllfa bresennol a thargedau sy'n ymwneud â chanran y disgyblion sy'n cofrestru i wneud TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a gofrestrwyd ar gyfer o leiaf pum cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2017/2018 | 2018/2019 | 2019/2020 | 2020-21 |
|---|---|---|---|
| **<u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u>**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 90/100 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf, 83 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf + 2 TGAU+ yn y Gymraeg. (7 wedi pontio mamiaith yn CA3-4 ond ddim wedi newid cyfrwng. | **<u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u>**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. Mae 76/86 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfwng y Gymraeg. | **<u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u>**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. 91/104 yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. | **<u>Ysgol Dyffryn Conwy:</u>**<br>Dim disgyblion wedi eu cofrestru i wneud TGAU hyd yn hyn. 99/120 (82.5%) yn dilyn Cymraeg Iaith Gyntaf. Anelwn iddynt i gyd cael y cyfle i gofrestru ar gyfer o leiaf 5 gymhwyster drwy gyfrwng y Gymraeg. |
| **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>105 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>81 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>83 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf | **<u>Ysgol Y Creuddyn:</u>**<br>90 yn y flwyddyn- pob un yn dilyn iaith gyntaf |

**Cyrsiau Cydweithredol**

- Cyflwynir cyrsiau galwedigaethol mewn Amaethyddiaeth a Gofal Anifeiliaid Bach yng Ngholeg Glynllifon a Gwallt a Harddwch ac Adeiladu yng Ngholeg Llandrillo yn ddwyieithog yn CA4 ar gyfer Ysgol y Creuddyn ac Ysgol Dyffryn Conwy.

**LINC Conwy**

- Cwrs LINC Conwy (Seicoleg Safon Uwch) yn cael ei ddarparu ar hyn o bryd fel dysgu o bell trwy gyfrwng Cymraeg gan Goleg Llandrillo. Rhennir y cwrs hwn ag Ysgol Glan Clwyd.
- Cytundeb lleol rhwng Ysgol Dyffryn Conwy ac Ysgol Y Creuddyn i gyflwyno Iaith a Cherddoriaeth drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Cynllun E-sgol sydd yn bartneriaeth dysgu o bell ar draws rwydwaith o ysgolion Cymraeg yng Ngogledd Cymru- mae cyrsiau TGCh, Sbaeneg, Addysg Grefyddol a Maths Pellach (gorffen ar ddiwedd y flwyddyn ysgol yma) yn cael ei ddarparu drwy'r rhaglen yma.

- Ysgol Dyffryn Conwy yn cyflwyno Ffrangeg fel rhan o E-sgol ac mae ysgolion eraill yng Nghonwy yn cyrchu at hyn. Trwy E-sgol, mae'r ysgol yn cynnig Cam gyda Gam gydag Ysgol Glan Clwyd.
- Ysgol y Creuddyn yn cynnig Safon Uwch Addysg Grefyddol. Safon Uwch Sbaeneg a TG trwy E-sgol.
- Ysgol Y Creuddyn yn gweithio gyda Choleg Llandrillo ar gyrsiau LINC Conwy trwy'r Bartneriaeth 14-19. Un cwrs sy'n cael ei gynnig ar hyn o bryd trwy gyfrwng Cymraeg. Coleg Llandrillo yn cynllunio sut y gellir ehangu'r ddarpariaeth ymhellach.

**Coleg Llandrillo Menai**

- Mae hawl gan y myfyrwyr gael tiwtor personol Cymraeg ac i gyflwyno eu gwaith drwy'r Gymraeg ymhob pwnc os dyma yw eu dymuniad.
- Anogir myfyrwyr sydd wedi llwyddo i gael 'C' yn eu TGAU, i ddilyn o leiaf rhan o'u cwrs yn y Gymraeg.
- 'Seren Iaith' eisoes ar waith yn y coleg, a datblygir ymwybyddiaeth y myfyrwyr o bwysigrwydd y Gymraeg ym mywyd bob dydd a bywyd gwaith. Targedir anghenion yn sgil y data gwreiddiol gan ail ymweld â'r broses ar ddiwedd y flwyddyn er mwyn gweld datblygiad/ pennu targedau.
- Cynhelir wythnos datblygu ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn flynyddol.
- Mae Canolfan Sgiliaith wedi ei leoli o fewn Grŵp Llandrillo Menai ac yn cynnig hyfforddiant a mentora ar addysgu ac asesu'n ddwyieithog. Gwneir defnydd helaeth o'r gefnogaeth yma.
- Swyddog Datblygu Dwyieithrwydd yn gweithio ar draws y Grŵp i gefnogi staff a dysgwyr
- Bwrsari Iaith Gymraeg (AU) - £300 i bob myfyriwr sy'n astudio cyrsiau penodol yr addysgir rhannau sylweddol ohonynt drwy gyfrwng y Gymraeg

Grŵp Llandrillo Menai oedd y coleg addysg bellach gyntaf yng Nghymru i benodi Swyddogion Cangen y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Mae'r swyddogion yn gyfrifol am:

- gefnogi ac annog dysgwyr i gyflawni gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.
- hyrwyddo manteision astudio drwy gyfrwng y Gymraeg i ddysgwyr a hyrwyddo darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Grŵp.
- trefnu a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg o fewn gwersi ac yn gymdeithasol.
- cydlynu gwaith y pedwar is-bwyllgor Panel Iaith (Coleg Meirion Dwyfor, Coleg Menai, Coleg Llandrillo a Busnes@). Mae'r is-bwyllgorau yn cynnwys staff cefnogi a staff addysgu o bob gallu ieithyddol. Mae'r cyfarfodydd yn trafod materion Cymraeg a Chymreig yn y coleg, cyn i'r Swyddogion Cangen drafod y materion gweithredu yn y Panel Iaith.
- Llysgenhadon
- Ysgoloriaeth Cymhelliant

Mae gan y Grŵp Banel Iaith sy'n cael ei gadeirio gan Bennaeth Colegau Menai a Meirion Dwyfor. Mae'r Panel yn monitro'r cwricwlwm Cymraeg a dwyieithog sydd ar gael ar draws y Grŵp a'n sicrhau atebolrwydd ar ran Rheolwyr Maes Rhaglen wrth roi dewis iaith i ddysgwyr y Grŵp.

Mae gan Grŵp Llandrillo Menai dîm cyfieithu a phrawf ddarllen mewnol. Gellir anfon gwaith cwricwlaidd (e.e. llawlyfr, cyflwyniad PowerPoint, taflen wybodaeth ac ati) i'w gyfieithu neu'i brawf ddarllen o'r Gymraeg i'r Saesneg neu o'r Saesneg i'r Gymraeg.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau Sirol**

**Y Gymraeg fel pwnc**

- Adolygu Polisi Iaith Addysg Conwy:
  - nodi dilyniant cryf o ran astudio'r Gymraeg fel pwnc i sicrhau bod disgyblion sydd wedi mynychu ysgolion cyfrwng Cymraeg yn y cynradd neu sydd wedi treulio cyfnod allweddol cyfan yn astudio iaith gyntaf yn dilyn yr un llwybr trwy'r cyfnodau allweddol uwchradd
  - sicrhau fod pob ysgol yn y Sir yn ei weithredu
  - cynnal sesiynau hyfforddiant i Gynghorwyr a Llywodraethwyr/ ysgolion y Sir ar gynnwys y polisi ynghyd a chynnwys y strategaeth hon
  - sicrhau bod cyfathrebu a chefnogaeth gyson yn cael ei gynnig i'r holl randdeiliaid yr ysgolion wrth i'r gwaith o symud ysgolion ar hyd y continwwm fynd rhagddo

**Categoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru**

- Erbyn Gorffennaf 2022 awdurdod yn cytuno â rhanddeiliaid ar ddarpariaeth Cymraeg pob ysgol o ran y weledigaeth yn y CSGA.
- Awdurdod yn cyd-weithio gyda'r ysgolion i weithredu ac ymgyrraedd â'r targedau addysgol/ieithyddol disgwyliedig dros gyfnod y cynllun a thu hwnt.
- Cynnal ac adeiladu ar nifer y disgyblion sy'n trosglwyddo o'r ysgolion cynradd presennol i addysg cyfrwng Cymraeg uwchradd
- Cefnogi'r ysgolion uwchradd i symud ar y continwwm ieithyddol yn unol ag amserlen Categoreiddio ysgolion a'r CSGA.
- Sicrhau bod unrhyw ddatblygiadau yn sgil y Categoreiddio Ysgolion yn cael ei gynnwys o fewn *Rhaglen cyfalaf i sicrhau Addysg ac Ysgolion ar gyfer yr 21ain Ganrif*

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Cynnal Ffeiriau Gyrfaoedd/Byd Gwaith – rhannu pwysigrwydd dwyieithrwydd – modd gwneud hyn trwy gyfres o ffilmiau byrion o brofiadau pobl go iawn
- Rhannu fideos LlC - https://www.youtube.com/cymraeg ar gyfer nosweithiau opsiynau ac i'w hyrwyddo ymysg rhieni
- Creu fideos astudiaethau achos ein hunain yn olrhain taith iaith disgyblion a staff

**Hyfforddiant a Recriwtio**

- Annog athrawon hynny sy'n ddihyder yn eu defnydd o'r iaith i fynychu hyfforddiant.
- sicrhau bod ysgolion yn deall anghenion newydd cymwysterau TGAU yn sgil Cwricwlwm i Gymru.

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

- Sefydlu perthynas agos a chynllunio gyda Gyrfa Cymru er mwyn lledaenu negeseuon cadarnhaol.
- Sicrhau bod prentisiaethau a swyddi'r sir yn nodi pwysigrwydd/angen y Gymraeg.
- Rhanddeiliad allweddol, megis LlC / Prifysgol Bangor / Coleg Llandrillo Menai / Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Y Ganolfan Dysgu Cymraeg / GwE / ESTYN / CYDAG / RhAG, i gyd-weithio i gefnogi gweledigaeth a dyhead yr awdurdod.

**Ysgol Dyffryn Conwy**

- Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Bl 11 sy'n astudio 5 pwnc TGAU drwy'r Gymraeg erbyn 2023/24. Hyn yn sicr yn wir gan ei fod yn argoeli i fod yn 92%.
- Cynyddu'r ganran o ddysgwyr Bl.11 sy'n astudio 5 pwnc TGAU drwy'r Gymraeg 20% erbyn 2025- 2026 - 100%. (Blwyddyn 6 ar hyn o bryd)

- Edrych ar opsiynau cynnal sesiynau trochi ar gyfer dysgwyr ail iaith sydd yn dewis dod yma ym mlwyddyn 7 er mwyn sicrhau bod pob dosbarth yn ddosbarth Ffrwd Gymraeg o Medi 2021.
- Ail edrych ar Bolisi Iaith yr ysgol o ran categoreiddio ysgolion.
- Monitro cyfrwng iaith astudiaethau dysgwyr CA4 a CA5 er mwyn adnabod patrymau a thueddiadau gan ymateb fel bo'r angen.

**Ysgol Y Creuddyn**

- Parhau i gynyddu'r niferoedd o ddysgwyr sydd yn dewis trosglwyddo i Ysgol y Creuddyn dros y tair mlynedd nesaf er mwyn gallu cynyddu'r nifer o ddysgwyr sydd yn astudio o leiaf 5 pwnc TGAU drwy'r Gymraeg (100% o ddysgwyr yr ysgol yn gwneud hyn yn flynyddol). Byddai hyn hefyd yn cynyddu'r nifer o ddysgwyr y byddai'n dewis parhau gyda'u hastudiaethau yn y Chweched Dosbarth yn y blynyddoedd wedyn.
- Parhau i ddatblygu y darpariaeth y Cynllun Trochi Hwyr llwyddianus, ar y cyd gyda'r Awdurdod Lleol er mwyn cynyddu'r nifer o ddysgwyr sydd yn gallu trosglwyddo i Addysg Gymraeg yn 11 oed.
- Parhau i ddatblygu Partneriaeth E-sgol er mwyn ehangu'r nifer o gyrsiau Cymraeg sydd ar gael i Ddysgwyr Ol-16 yn yr Ysgol.
- Cynnal trafodaethau gyda'r ALl er mwyn sicrhau bod Adeilad yr Ysgol yn barod i dderbyn y cynnydd mewn niferoedd dysgwyr disgwyliedig dros y blynyddoedd nesaf.

**Safon Uwch Cymraeg a Chymraeg Ail iaith**

- Cefnogi ysgolion i gynnig pwnc Safon Uwch Cymraeg, hyd yn oed os yw'r nifer yn isel, trwy gynnal dosbarthiadau llai / cydweithio ysgol i ysgol / rwydweithio'n rhithiol.

**LINC Conwy**

- Cynllunio ehangu y ddarpariaeth presennol a chreu cynllun 5 mlynedd
- Trefnu adolygiad llawn o Linc Conwy, er mwyn datblygu'r Gymraeg ymhellach. Bydd edrych ymhellach ar y pynciau 'gwan' er mwyn cydweithio i ddiogelu'r pynciau trwy'r Gymraeg.
- Datblygu ymhellach y ddarpariaeth ddwyieithog/ Cymraeg o ran y pynciau.
- Edrych ar rannu staff sy'n siaradwyr Cymraeg, yn draws sirol ac uwchsgilio staff presennol.
- Ail edrych ar arferion recriwtio gan ystyried anghenion dwyieithrwydd.
- Datblygu mwy o gydweithio ar draws Conwy.

**Grŵp Llandrillo Menai**

- Rhoi mwy o bwyslais ar sicrhau penodi staff dwyieithog.
- Cynyddu nifer y dysgwyr â TGAU iaith gyntaf sy'n astudio'u cwrs ar lefel B1 (dwyieithog) ym meysydd blaenoriaeth Llywodraeth Cymru (Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Gofal Plant, Gwasanaethau Cyhoeddus, Amaethyddiaeth, Adeiladu, Busnes, Chwaraeon a Hamdden, Diwydiannau Creadigol) ar draws Coleg Llandrillo
- Cynyddu nifer y dysgwyr â TGAU iaith gyntaf a TGAU ail iaith sy'n derbyn elfennau wedi'u cynllunio o weithgarwch cyfrwng Cymraeg (B3) yn eu dysgu i arddangos yr hyder a'r hyfedredd yn yr iaith sy'n briodol ar gyfer eu lefel, gan gynnal a datblygu eu sgiliau ar gyfer y gweithle ar draws holl ddarpariaeth Coleg Llandrillo.
- Datblygu perthynas agosach â chyflogwyr cyfrwng Cymraeg ar draws Conwy â maes rhaglen gofal plant ac iechyd a gofal cymdeithasol.
- Creu adnoddau arlein mewn cydweithrediad â chyflogwyr i ddysgwyr ym maes lletygarwch ac arlwyaeth.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Parhau ac adeiladu ar ganran y cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg.
- Parhau ac adeiladu ar gynnydd yn hyder disgyblion a rhieni i ddewis addysg Gymraeg.
- Cynnydd yng nghanran disgyblion rhwng 5 a 15 oed sy'n medru siarad Cymraeg yng nghanlyniadau cyfrifiad 2031.

## Data Allweddol

**Nifer a chanran y disgyblion Blwyddyn 7 – 13 sydd yn mynychu addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn Ionawr 2021 (CYBLD 2021)**

| | Bl.7 | | Bl.8 | | Bl.9 | | Bl.10 | | Bl.11 | | Bl.12 | | Bl.13 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfrwng Cymraeg | 246 | 21.8% | 200 | 17.9% | 195 | 17.1% | 209 | 18.7% | 190 | 18.3% | 128 | 20.5% | 107 | 21.8% |
| Cyfrwng Saesneg | 881 | 78.2% | 917 | 82.1% | 944 | 82.9% | 906 | 81.3% | 848 | 81.7% | 496 | 79.5% | 383 | 78.2% |

- Parhau ac adeiladu ar ganran y cymwysterau a astudir trwy gyfrwng y Gymraeg.

### Niferoedd a % y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg

| 2022 - 2023 | | 2023 - 2024 | | 2024 - 2025 | | 2025 - 2026 | | 2026 - 2027 | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | 17% | | 18% | | 19% | | 20% | | 21% |
| **2027 - 2028** | | **2028 - 2029** | | **2029 - 2030** | | **2030 - 2031** | | **2031 - 2032** | |
| | 23% | | 25% | | 27% | | 29% | | 32% |

# Deilliant 5

## Mwy o gyfleoedd i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol

### Ble rydym ni nawr?

**Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg**
Mae'r Deilliant hwn yn cysylltu'n uniongyrchol â chynllun 5 mlynedd sy'n ofyniad dan Safonau'r Gymraeg:
**Maes Strategol 2 – Plant a Phobl Ifanc**
Cynyddu'r defnydd o Gymraeg ymysg plant a phobl ifanc, gwella eu hymwybyddiaeth o werth y Gymraeg drwy gael addysg cyfrwng Gymraeg, digwyddiadau cymdeithasol a gwasanaethau drwy Gymraeg.
**Maes Strategol 3 – Cymunedau**
Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg yng nghymunedau Conwy.

**Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg**
Penodwyd Swyddog Hyrwyddo a Datblygu'r Gymraeg i dîm Gwasanaeth Iaith Gymraeg a Chyfieithu Cyngor Conwy yn ôl ym mis Ionawr 2021. Mae'r swyddog yn gweithio i hyrwyddo a datblygu gwasanaethau iaith Gymraeg yn fewnol o fewn y Cyngor yn ogystal ag yn allanol yng nghymunedau'r sir. Mae'r swyddog hefyd yn cydweithio gyda'r Rheolwr Gwasanaethau Iaith ar ddatblygu, monitro a gweithredu Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg cyfredol y Cyngor sydd â'r nod o sicrhau bod diwylliant Cymraeg a Chymreig yn hyfyw yn y sir a bod yr iaith Gymraeg yn ffynnu.

**Siarter Iaith / Cymraeg Campus**
Mae Cydlynydd Siarter Iaith, sydd ar secondiad o Dîm Ymgynghorol y Gymraeg Conwy, yn arwain ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg siroedd Conwy a Dinbych i roi Fframwaith Siarter Iaith Llywodraeth Cymru ar waith.
Bydd y cydlynydd yn cyd-weithio ag amryw o randdeiliaid gyda'r nod penodol o annog defnydd o'r Gymraeg yn anffurfiol ymysg disgyblion yr ysgolion hyn.
Mae Cymraeg Campus yn weithredol yng ngweddill ysgolion cynradd / arbennig Conwy o dan arweiniad Tîm Ymgynghorol y Gymraeg.

**Nifer yr ysgolion a gyflawnodd pob gwobr**

| Gwobr | Siarter Iaith | | Cymraeg Campus | |
|---|---|---|---|---|
| Aur | 12 | 52.2% | - | - |
| Arian | 10 + * | 43.5% | - | - |
| Efydd | 1 | 4.3% | 20 | 69% |

*2 ysgol categori 4 Llanfairfechan wedi derbyn y wobr arian*
Mae pob ysgol yn cynnal neu'n gweithio tuag at y wobr nesaf.

- Cynhaliwyd nifer o weithgareddau pwrpasol i hyrwyddo'r Gymraeg yn y cyfnodau anffurfiol.

**Gwefeillio**
Cydlynydd Siarter Iaith a Thîm Ymgynghorol y Gymraeg wedi cyd-weithio ar gynllun digidol arloesol i wneud defnydd anffurfiol o'r Gymraeg ar-lein. Cynllun wedi'i rannu'n genedlaethol.

**Cardiau Siarad Seren a Sbarc**
Cardiau sy'n ganllawiau trochi cynnar ac adnoddau defnydd iaith.

Ceir mynediad at adnoddau a syniadau ar gyfer targedau'r Siarter Iaith / Cymraeg Campus ar rwydweithiau Hwb. Rhennir arfer dda trwy lwyfannau digidol.
Cyfrannu a chael mynediad at adnoddau cenedlaethol i gefnogi'r ysgolion i wireddu eu cynlluniau.

**Menter Iaith Conwy**
Mae Menter Iaith Conwy yn un o'r 22 Menter Iaith sy'n gweithio ar hyd a lled Cymru i hyrwyddo a datblygu'r Gymraeg ar lawr gwlad. Mae gwaith y Mentrau yn amrywio o sir i sir gan ein bod yn canolbwyntio ar wahanol ffyrdd o ddarparu cyfleoedd i'r cyhoedd i ddefnyddio eu Cymraeg, neu i hyrwyddo'r iaith yn lleol.
**I deuluoedd**
- cynnal clybiau rhiant a phlentyn,
- dyddiau hwyl i deuluoedd
- cyfleoedd i blant bach a'u rhieni glywed a defnyddio'r Gymraeg mewn ffordd adeiladol a chyfeillgar.

**I blant**
- awyddus i blant ddefnyddio'r iaith y tu allan i'r dosbarth, boed mewn clybiau chwaraeon, ar apiau neu mewn digwyddiadau gan roi'r hyder iddynt gymdeithasu'n Gymraeg.

**I'r ifanc**
- cydweithio gyda'r Urdd mewn sawl ardal i sicrhau bod clybiau ieuenctid a chyfleoedd cymdeithasu ar gael i bobl ifanc dros Gymru fedru defnyddio a chlywed y Gymraeg tu hwnt i'r ystafell ddosbarth.

**I siaradwyr newydd**
- cynnal gweithgareddau sy'n rhoi cyfle i siaradwyr newydd ddefnyddio'r Gymraeg ac i ddod yn rhan o'n cymunedau Cymraeg.

**I'r gymuned**
- gweithio'n agos gyda'n cymunedau i greu cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg trwy greu swyddi, cefnogi mentrau newydd, cynnal digwyddiadau a mwy.

Mae Menter Iaith Conwy yn / wedi cynnal:
- 275 o ddigwyddiadau wyneb i wyneb tu allan i ysgol efo 5726 yn mynychu
- 200 o ddigwyddiadau rhithiol efo 4000 yn mynychu

**Urdd**
Mae Urdd Gobaith Cymru yn fudiad plant a phobl Ifanc cenedlaethol gwirfoddol sydd yn darparu cyfleoedd amrywiol i ddefnyddio'r Gymraeg ac ennill profiadau tu allan i'r dosbarth ac yn eu cymunedau.
Mae'r holl gyfleoedd yma ar gael ymhob Awdurdod Lleol yng Nghymru ac yn amrywiaeth o weithgareddau lleol, sirol, rhanbarthol a Chenedlaethol
**Cymunedol**
- Swyddogion sy'n darparu cyfleoedd celfyddydau cymunedol gydol flwyddyn
- Adrannau, aelwydydd a chlybiau cymunedol i blant a phobl ifanc i fwynhau a defnyddio'r Gymraeg
- Darpariaeth ddigidol pob oed

**Chwaraeon**
- Clybiau cymunedol
- Cystadlaethau chwaraeon, sirol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Gwyliau Chwaraeon rhanbarthol a Chenedlaethol
- Gweithgareddau digidol
- Darpariaeth addysg llythrennedd corfforol i ysgolion

**Gwersylloedd Yr Urdd**
- Llangrannog, Glan-llyn, Caerdydd a Phentre Ifan
- Profiadau preswyl sydd yn cynnig profiadau dysgu, hwyl ac atgofion cadarnhaol am y defnydd o'r Gymraeg

**Eisteddfod a'r Celfyddydau**

- Eisteddfod Cylch a Sir sydd yn cynnig cyfleodd i ysgolion a disgyblion i brofi'r celfyddydau, datblygu hunan hyder a dysgu mwy am ddiwylliant a llenyddiaeth Cymru.
- Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd a bod yn rhan o ŵyl Genedlaethol
- Darpariaeth ddigidol gelfyddydol, cerddoriaeth, theatr, celf a chefn llwyfan
- Prentisiaethau cyfrwng Cymraeg
- Dilyniant addysgol a chyflogaeth i bobl ifanc sydd am ennill cymwysterau a phrofiad yn y Gymraeg

**Rhyngwladol**

- Neges Heddwch ac Ewyllys Da - yn estyn llaw o gyfeillgarwch a thrafod pwyntiau o bwys i bobl ifanc ar lefel byd eang
- Prosiectau penodol gyda phartneriaid yn Iwerddon, America a Japan
- Cyfleoedd gwirfoddoli a chyfnewid rhyngwladol.

**Adnoddau**

- Cylchgronau digidol yr Urdd
- Casgliad o adnoddau addysgol i gefnogi'r Cwricwlwm Newydd

**Gwasanaeth Ieuenctid Conwy**

- Cyd-weithio gyda'r Urdd i ddarparu gwasanaeth ieuenctid o fewn ysgolion a chynlluniau'r sir.

**Fforwm Iaith Conwy**

Cynhelir cyfarfodydd cyson gyda thrawsdoriad o ran-ddeiliaid allweddol i rannu gwybodaeth am ddigwyddiadau cymunedol o fewn Sir Conwy.

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau Sirol**

- Penodi Cydlynydd Siarter Iaith barhaol i sicrhau cysondeb a pharhad i ysgogi plant a phobl ifanc i sefydlu arferion cadarnhaol o ran defnyddio'r iaith.
- Gweithgor Deilliant 5 fydd yn cynnwys cynrychiolwyr allweddol o'r Fforwm Menter Iaith Conwy, i arwain a monitro'r Deilliant yma o fewn y CSGA.
- Parhau i gydweithio a rhannu arfer dda gydag ALl eraill yn y rhanbarth ac yn genedlaethol.
- Cydweithio gyda darparwyr cyfrwng Cymraeg er mwyn ehangu darpariaeth lle gall disgyblion cael mynediad i weithgareddau allgyrsiol cyfrwng Cymraeg e.e. Urdd Gobaith Cymru, CFFI,
- Parhau i ddarparu gweithgareddau ar gyfer diwrnodau penodol i hyrwyddo'r Gymraeg megis Diwrnod Shwmae/Su mae, Dydd Miwsig Cymru, Gŵyl Ddewi ayyb.

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Hyrwyddo manteision y Gymraeg ac amlieithrwydd i bawb, beth bynnag fo'u cefndir ieithyddol, trwy gydweithio â rhanddeiliaid lleol / cenedlaethol a thrwy lwyfannau digidol a chymdeithasol y sir.

**Hyfforddi a Recriwtio**

- ehangu capasiti Tîm Ymgynghorol y Gymraeg Conwy trwy benodi athro/athrawes barhaol i arwain ar gryfhau strategaethau defnydd o'r Gymraeg yn y sector Uwchradd.

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

**Menter Iaith**

- Parhau i gynnal ac ehangu profiadau a chyfleoedd i blant a phobl ifanc Conwy a'u teuluoedd ddefnyddio'r Gymraeg yn hyderus o fewn eu cymunedau lleol.

- Parhau a chryfhau'r cyd-weithio gyda rhanddeiliaid y sir a mudiadau a sefydliadau eraill.

**Urdd**

- Bydd holl brofiadau plant a phobl ifanc trwy'r Urdd yn plethu i mewn i Gwricwlwm i Gymru a'r 4 diben.
- Prif ddarparydd cyfleoedd allgyrsiol a chymunedol sydd yn cynyddu defnydd y Gymraeg ymhlith plant a phobl ifanc.
- Pwysleisio pwysigrwydd profiadau preswyl yr Urdd, sydd yn cynnig profiadau hollol Gymreig 24 awr gan greu atgofion positif, cadarnhaol hir dymor o'r Gymraeg ymysg disgyblion
- Cynyddu ymwneud ysgolion gydag Eisteddfod yr Urdd i feithrin hunan hyder, profiad o'r celfyddydau a dealltwriaeth am lenyddiaeth, cerddoriaeth a'r celfyddydau Cymru.
- Cynnwys gwariant a chydgynlluniau darpariaeth gwaith ieuenctid (11-25oed) yn y Gymraeg.
- Cynnwys yr Urdd mewn trafodaethau cynlluniau darpariaeth ôl-16 i gynnig cyfleodd prentisiaethau a sgiliau cyflogadwyedd o fewn ardal yr awdurdod lleol.

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

Bydd yr egwyddorion canlynol yn holl bwysig i ddatblygu cyfleoedd ac i sicrhau llwyddiant y gweithredoedd a nodwyd dros gyfnod y CSGA:

- cynnig, cynnal a hyrwyddo amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol cymdeithasol
- sicrhau ein bod yn helpu ein plant a'n pobl ifanc i fod yn ddysgwyr uchelgeisiol a galluog, yn fentrus a chreadigol yn ddinasyddion egwyddorol a gwybodus ac yn iach a hyderus sy'n cyd-fynd â datblygiadau Cwricwlwm i Gymru ac elfennau o'r pedwar diben.
- ennyn hyder a balchder cynyddol ymysg disgyblion yn eu gallu i gyfathrebu yn y Gymraeg a'r Saesneg ac mewn amlieithrwydd cyffredinol.
- sicrhau bod y Gymraeg yn berthnasol, yn fywiog, cyfoes a chynhwysol

Bydd holl ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg Conwy yn gynyddol ymateb i nodau'r Siarter Iaith. Sicrhau bod holl ysgolion uwchradd Conwy yn ehangu'r cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol / cymdeithasol.

## Data Allweddol

Defnydd o ddata yn deillio o holiaduron Siarter Iaith / Cymraeg Campus neu o system leol. Holiaduron yn cael eu cwblhau gan y disgyblion trwy Hwb. Nid yw'r data cyfredol / hanesyddol ar gael ar hyn o bryd oherwydd problemau digidol. Hyn yn fater cenedlaethol.

Gweler Atodiad 2 am nifer o weithgareddau / hyfforddiant a gynigwyd i'r ysgolion cynradd i gefnogi targedau Siarter Iaith / Cymraeg Campus dros gyfnod y cynllun cyfredol 2017-2021.

# Deilliant 6

## Cynnydd yn y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (“ADY”) (yn unol â'r dyletswyddau a bennir gan y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018)

### Ble rydym ni nawr?

**Darpariaeth Dysgu Ychwanegol Conwy (DDY)**
Ar hyn o bryd mae'r ddarpariaeth dysgu ychwanegol (ALP) a ariennir gan yr Awdurdod Lleol ar gael i ddysgwyr yng Nghonwy sy'n cwrdd â'r meini prawf mynediad perthnasol. Mae'r DDY arbenigol hwn wedi'i ddatblygu'n raddol mewn ymateb i archwiliad yn ôl yr angen.

- Ysgol y Gogarth - Ysgol Arbennig sy'n gallu darparu addysgu i ddysgwyr ag anabledd dysgu dwys trwy gyfrwng **Cymraeg a Saesneg.**
- Adnodd Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth Cyfnod Sylfaen (Ysgol Nant y Groes) - darpariaeth Cyfrwng Saesneg
- Adnodd Dysgu Cymedrol Cyfnod Sylfaen (Ysgol Sŵn y Don) - darpariaeth Cyfrwng Saesneg
- Adnodd Lleferydd ac Iaith y Cyfnod Sylfaen (Ysgol Awel y Mynydd) - **Darpariaeth ddwyieithog**

- Adnodd  Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth Cyfnod Allweddol 2 (Ysgol Ffordd Dyffryn) - darpariaeth Cyfrwng Saesneg
- Adnodd Lleferydd ac Iaith Cyfnod Allweddol 2 (Ysgol Nant y Groes) - darpariaeth Cyfrwng Saesneg
- Adnodd Lleferydd ac Iaith a Dysgu Cyfnod Allweddol 2 (Ysgol Awel y Mynydd) - **Darpariaeth ddwyieithog**
- Adnodd Dysgu Cymedrol Cyfnod Allweddol 2 (Ysgol Bro Gwydir) - **darpariaeth cyfrwng Cymraeg**
- Adnoddau Dysgu Cymedrol Cyfnod Allweddol 2 (Ysgol Maes Owen, Ysgol Tudno, Ysgol Sŵn y Don, Ysgol Porth y Felin, Ysgol Pencae)

- Adnodd Anhwylder Sbectrwm Awtistiaeth Uwchradd (Ysgol Aberconwy) - Darpariaeth cyfrwng Saesneg / **dwyieithog** gyda chyfleoedd i'w cynnwys gyda gwersi cyfrwng Cymraeg
- Adnodd Dysgu Cymedrol Uwchradd (Ysgol Dyffryn Conwy) - 50% darpariaeth cyfrwng Cymraeg a 50% darpariaeth cyfrwng Saesneg
- Adnoddau Dysgu Cymedrol / Difrifol Uwchradd (Ysgol Bryn Elian, Ysgol Eirias, Ysgol John Bright ac Ysgol Emrys ap Iwan) - darpariaeth cyfrwng Saesneg

Ein nod yw sicrhau bod gennym ddigon o staff sy'n siarad Cymraeg i ddiwallu'r angen (fel y nodwyd trwy ein prosesau atgyfeirio), i ddarparu asesiad, cefnogaeth ymgynghorol ac ymgynghori trwy iaith gyntaf y cartref / y plentyn neu'r person ifanc.

- Gwasanaeth Seicoleg Addysg - **2/7 siaradwyr Cymraeg**
- Athrawon Cynhwysiant ADY - **3/6 siaradwyr Cymraeg**
- Gwasanaeth Cymorth Synhwyraidd - **1/2 siaradwr Cymraeg**
- Tîm Allgymorth Anhwylderau Lleferydd ac Iaith Arbenigol - **3/4 siaradwyr Cymraeg**
- Gwasanaeth Allgymorth Awtistiaeth - **1/3 swydd siaradwr Cymraeg** (2 swydd wag ar hyn o bryd)
- Gwasanaeth Cymorth Dysgu - tbc

- Gwasanaeth Cwnsela mewn Ysgolion - tbc

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd gyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau Sirol**

- Sicrhau bod darpariaeth dysgu ychwanegol arbenigol cyfrwng Cymraeg digonol ac o ansawdd uchel i gwrdd â'r angen a nodwyd yng Nghonwy.
- Sicrhau bod cefnogaeth gynghorol a gwasanaethau allgymorth cyfrwng Cymraeg digonol i ddiwallu'r angen a nodwyd yng Nghonwy.
- Mae cynllunio olyniaeth ar gyfer Seicoleg Addysg yn cynnwys recriwtio Seicolegwyr Cynorthwyol sy'n siarad Cymru yn weithredol a'u cefnogi i barhau i gyrsiau hyfforddiant proffesiynol.
- Yn ogystal â sicrhau bod darpariaeth dysgu ychwanegol Conwy a thimau anghenion dysgu ychwanegol canolog yn gallu darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd sy'n siarad Cymraeg, byddwn hefyd yn mynd ati i annog gweddill y gweithlu ADY i wella eu sgiliau siarad Cymraeg.
- Defnyddio'r ddyletswydd statudol newydd yn llawn i adolygu DDY i sicrhau bod yr angen am DDY cyfrwng Cymru yn cael ei nodi a'i ddatblygu'n gywir.
- Defnyddio 'Pecyn Cymorth Anghenion Dysgu Ychwanegol Conwy a Sir y Fflint' i ddisgrifio arfer da yn eglur ar lefelau cymorth Cyffredinol, Targedu Cyffredinol ac Arbenigol i sicrhau cysondeb gwahaniaethu o ansawdd uchel a darpariaeth dysgu ychwanegol wedi'i thargedu ar draws lleoliadau Cymraeg a Saesneg.
- Bydd Tîm Cynghori Cymru yn parhau i gefnogi Unedau Ysgol y Gogarth ac ADY i ddatblygu dwyieithrwydd ar draws staff addysgu a chymorth.
- Datblygu ein systemau i weithredu gofynion a goblygiadau'r Ddeddf a'r Cod ADY yn ein hysgolion yn ogystal â'n darpariaeth ganolog.
- Parhau i gydweithio a rhannu arfer da gydag ALl eraill.

**Marchnata a Chyfathrebu**

- Parhau i annog a recriwtio mwy o unigolion sy'n siarad Cymraeg i ymuno â'r proffesiynau amrywiol sydd wedi'u cynnwys mewn gwasanaethau ADY.
- Darperir yr holl gyfathrebu a gohebiaeth ADY yn ddwyieithog.
- Byddwn yn sicrhau bod gwasanaethau Cymraeg ar gael i bob teulu yn y man cyswllt.
- Bydd yr holl ddeunyddiau Trawsnewid ADY (taflenni gwybodaeth, llythyrau templed, a gwybodaeth gwefan) i gyd yn cael eu cynhyrchu yn Gymraeg a Saesneg (yn ogystal ag ieithoedd eraill ar gais).

**Hyfforddi a Recriwtio**

- Datblygu sgiliau iaith Cymraeg yr holl staff ADY arbenigol ledled y Sir.
- Datblygu rhaglen DPP briodol ar gyfer staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gyda disgyblion ADY mewn ysgolion.
- Sicrhau mynediad i staff ar y Cwrs Sabothol.
- Parhau i hysbysebu am staff sy'n gallu cyfathrebu a chefnogi trwy gyfrwng y Gymraeg. Lle nad yw hyn yn bosibl oherwydd arbenigedd y sgiliau proffesiynol, mae staff yn ymrwymo i ddysgu Cymraeg o fewn cyfnod penodol ar ôl eu penodi.

| Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi |
|---|
| • Rhanddeiliad allweddol, megis LlC / Prifysgol Bangor / Coleg Llandrillo Menai / Coleg Cymraeg Cenedlaethol / Y Ganolfan dysgu Cymraeg / GwE / ESTYN / Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr i gyd-weithio i gefnogi gweledigaeth a dyhead yr awdurdod. |
| **Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?** |
| • Bydd gan y tîm ADY canolog y gallu a'r capasiti i ddarparu gwasanaethau arbenigol trwy gyfrwng y Gymraeg i bob siaradwr Cymraeg a'r teuluoedd hynny sy'n gofyn am wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg.<br>• Rydym yn parhau i ymateb i archwiliad ac adolygiad rheolaidd o ddarpariaeth dysgu ychwanegol yng Nghonwy ac yn datblygu darpariaeth Ccyfrwng Cymraeg rhagorol yn seiliedig ar yr angen a ragwelir ac nid yr angen hanesyddol.<br>• Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar draws Addysg, Gofal Cymdeithasol ac Iechyd i ymateb yn effeithiol ac yn rhagweithiol i'r angen, gan sicrhau bod gan bob plentyn yng Nghonwy fynediad llawn i'r ddarpariaeth a'r gefnogaeth sydd eu hangen arnynt, trwy'r cyfrwng iaith o ddewis. |

# Deilliant 7

## Cynnydd yn nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu Cymraeg (fel pwnc) a thrwy gyfrwng y Gymraeg

### Ble rydym ni nawr?

**Data diweddaraf am y gweithlu addysg yng Nghonwy (Ionawr 2021)**

**Nifer yr athrawon yn ôl eu gallu yn y Gymraeg**

| Ysgolion | Dim sgiliau Cymraeg | Lefel Mynediad | Lefel Sylfaen | Lefel Ganolradd | Lefel Uwch | Lefel Hyfedr | Heb ei gael |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Categori 1 | 0 | 6 | 7 | 14 | 41 | 212 | 4 |
| Categori 4 | 20 | 33 | 27 | 26 | 44 | 129 | 13 |
| Categori 5 | 55 | 135 | 102 | 59 | 51 | 49 | 20 |
| Uwchradd | 161 | 175 | 106 | 50 | 34 | 179 | 2 |
| Arbennig | 33 | 35 | 21 | 17 | 16 | 16 | 27 |

**Nifer o athrawon yn ôl eu gallu i addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg**

| Addysgu / gweithio yn Gymraeg yn y swydd gyfredol | Yn gallu dysgu / gweithio yn Gymraeg ond heb wneud hynny yn y swydd bresennol | Methu dysgu / gweithio yn Gymraeg | Dysgu Cymraeg fel pwnc yn unig | Anhysbys | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|
| 350 | 120 | 375 | 110 | -- | 960 |

**Grŵp Llandrillo Menai:**

- Mae Canolfan Sgiliaith wedi ei leoli o fewn Grŵp Llandrillo Menai ac yn cynnig hyfforddiant a mentora ar addysgu ac asesu'n ddwyieithog. Gwneir defnydd helaeth o'r gefnogaeth yma.
- Mae'r Grŵp wedi bod yn rhan o'r cynllun Cymraeg Gwaith ers 2019, sy'n rhoi'r cyfle i staff ddatblygu eu sgiliau Cymraeg. Hyd yma mae'r Grŵp wedi recriwtio tu hwnt i'r targed blynyddol o 30 (36 yn ystod 20/21)
- Mae'r Grŵp wedi cydweithio gyda cholegau AB eraill ar brosiect cydweithredol i ddatblygu adnoddau e-ddysgu i hyfforddi staff sut i fewnosod y Gymraeg mewn gwersi rhithiol.
- Mae nifer o staff Coleg Llandrillo yn aelodau o baneli pwnc y Coleg Cymraeg Cenedlaethol

## Ble rydym yn ceisio bod o fewn 5 mlynedd cyntaf y Cynllun hwn a sut rydym yn bwriadu cyrraedd yno?

**Cynlluniau sirol**

- diwygio trefniadau ar gyfer cynllunio'r gweithlu addysg i ddiwallu'r galw yn y sector Cymraeg / dwyieithog.
- Adolygu 'Polisi Iaith' y sir at ddefnydd pob ysgol yn fewnol i gynnwys safbwynt y Gymraeg wrth recriwtio / penodi yn unol â'r safonau proffesiynol

**Marchnata a Chyfathrebu**

- annog a chefnogi staff i fynychu Cynllun Sabothol
- targedu, cysgodi a mentora disgyblion blwyddyn 10-13 er mwyn eu denu i weld addysgu yn y sector dwyieithog fel gyrfa ddeniadol.

**Hyfforddi a Recriwtio**

- Arlwy o hyfforddiant blynyddol i Benaethiaid, athrawon a chymorthyddion dan arweiniad Tîm Ymgynghorol y Gymraeg ar:
    - 'Maes Dysgu a Phrofiad - Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu' yn ogystal â'r Gymraeg ar draws yr holl feysydd dysgu a phrofiad eraill.
    - fethodoleg dysgu ddwyieithog
    - dulliau trochi
    - cefnogaeth i athrawon / dirprwy brifathrawon / uwch athrawon sy'n dymuno datblygu'n benaethiaid o fewn yr awdurdod e.e. CPCP
- Cydweithio gydag Academi Arweinyddiaeth Genedlaethol Cymru er mwyn denu penaethiaid posibl.
- Adnabod a chefnogi'r gweithlu addysg sy'n mynychu'r Cynllun Sabothol ac ar ôl iddynt gwblhau'r cynllun.

**Mudiadau a Sefydliadau Allanol sy'n cefnogi**

- Cydweithio gyda Grŵp Llandrillo Menai
    - i gynnig hyfforddiant i athrawon ysgolion Conwy drwy wasanaethau Sgiliaith (gweler deilliant 4)
    - 24 o staff addysgu / asesu'r Grŵp yn flynyddol wedi dilyn cwrs Cymraeg Gwaith (wyneb yn wyneb) a 10 o staff addysgu / asesu'r Grŵp yn flynyddol wedi dilyn cwrs ar-lein Cymraeg Gwaith (hunan astudio)
- Cydweithio gyda'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Sefydliadau Hyfforddi Athrawon
    - i hyrwyddo manteision astudio'r Gymraeg fel pwnc
    - i annog disgyblion i ystyried dilyn gyrfa yn y byd addysg
    - i fynychu ffeiriau addysg

## Ble rydym yn disgwyl bod ar ddiwedd ein Cynllun deng mlynedd?

- Sicrhau bod cynnydd parhaus yng ngweithlu addysg Conwy i allu addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg ac i addysgu'r Gymraeg fel pwnc.
- Parhau i gyd-weithio gydag amlasiantaethau fel bod cynnydd yn y cyflenwad o athrawon i allu addysgu'r pynciau presennol sy'n anodd i recriwtio ar eu cyfer e.e. Cymraeg, Gwyddoniaeth(-au), Mathemateg, Ieithoedd Modern, Dylunio a Thechnoleg.
- Arfogi'r gweithlu cyfan gydag ymatebion ar sut i ddarbwyllo rhieni ynglŷn â buddiannau addysg cyfrwng Cymraeg.
- Codi ymwybyddiaeth y gweithlu o'u rôl i ennyn hyder yn y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol ac yn gymdeithasol.
- Sicrhau bod gweithlu cyfan ysgolion Conwy yn deall pwysigrwydd eu rôl wrth greu disgyblion sy'n siaradwyr dwyieithog hyderus.

## Sut y byddwn yn gweithio gydag eraill i gyflawni ein gweledigaeth

- Rhoi cyfeiriad strategol a chynorthwyo'r awdurdod i ddatblygu Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg.
- Sicrhau bod strategaethau a chynlluniau perthnasol eraill yn cyd-fynd â'r CSGA.
- Monitro targedau'r CSGA yn chwarterol i sicrhau eu bod yn cael eu cyflawni trwy gynlluniau busnes Addysg y sir.
- Ystyried data ar gyrhaeddiad a chael adroddiadau ar agweddau penodol ar y Cynllun.
- Darparu adroddiad blynyddol CSGA i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd ar y cynllun gweithredu a chynnwys yr adroddiad blynyddol ym Mhwyllgor Trosolwg a Chraffu Addysg a Sgiliau yn flynyddol.
- Cynnig cymorth a herio perfformiad o ran gweithredu'r CSGA.
- Rhannu arferion da.

| |
|---|
| **CONWY - Grŵp Arweinwyr Strategol CSGA** |
| • Swyddogion Adrannau Addysg<br>• Cyfrifoldeb i ddiweddaru deilliant trwy gynlluniau busnes yr awdurdod. Rhan annatod o weithdrefnau'r sir i fonitro ac adnabod risg.<br>• Cyfarfod yn chwarterol |
| **Grwpiau Deilliannau** |
| • Cadeirio gan Swyddogion Adrannau Addysg<br>• Cynrychiolydd o bob sefydliad / menter yn unig i fynychu<br>• Gall y cyfarfodydd fod yn rhan o amserlen cyfarfodydd arferol y sir<br>• cyfarfod dwywaith y tymor (dibynnol ar agenda) |
| **Grŵp Llywio CSGA** |
| • Rhanddeiliaid cyfredol<br>LlC / Swyddogion Sir / Swyddogion Adran Addysg / Penaethiaid cynradd , uwchradd ac arbennig / UCD / Cynghorwyr / Llywodraethwyr / Mudiad Meithrin / Menter Iaith / GwE<br>• Cyfarfod yn chwarterol |
| **Fforwm Llawn** |
| • **Rhanddeiliaid cyfredol**<br>Swyddogion Sir / Swyddogion Adran Addysg / Penaethiaid / Cynghorwyr a Llywodraethwyr / Mudiad Meithrin / Menter Iaith / Urdd / GwE / Gyrfaoedd Cymru / Colegau a Phrifysgol Bangor / LlC<br>Cynrychiolwyr enwadol (ee. Eglwys yng Nghymru ayyb)<br>Mentrau cymdeithasol (e.e. Ffermwyr Ifanc)<br>• Cyfarfod unwaith y flwyddyn i rannu arfer dda a llwyddiannau'r flwyddyn |